

## Y TREIGLAD TRWYNOL

|          |            |
|----------|------------|
| <b>p</b> | <b>mh</b>  |
| <b>c</b> | <b>ngh</b> |
| <b>t</b> | <b>nh</b>  |
| <b>g</b> | <b>ng</b>  |
| <b>b</b> | <b>m</b>   |
| <b>d</b> | <b>n</b>   |

### Y Treigladd Trwynol

#### 1. Ar ôl y rhagenw **fy**.

e.e.    fy **mh**enderfyniad    fy **nh**raethawd    fy **ng**hyfle  
           fy **m**arn                    fy **n**arlith            fy **ng**waith

Cofiwch – nid yw **fy** yn newid o gwbl

### Termau

rhagenw – pronoun

## 2. Ar ôl **yn** (yr arddodiad sy'n golygu "in" yn Saesneg).

Sylwch – mae'r **yn** yn newid o flaen **p c b g** yn ogystal â llythyren gyntaf y gair sy'n dilyn.

|      |                 |   |                         |
|------|-----------------|---|-------------------------|
| e.e. | yn + Caernarfon | > | <b>yng Nghaernarfon</b> |
|      | yn + Porthcawl  | > | <b>ym Mhorthcawl</b>    |
|      | yn + Trefdraeth | > | yn <b>Nh</b> refdraeth  |
|      | yn + Brynaman   | > | <b>ym M</b> rynaman     |
|      | yn + Dolgellau  | > | yn <b>Nol</b> gellau    |
|      | yn + Glyn Ebwy  | > | <b>yng Nglyn</b> Ebwy   |

**Cofiwch** mai'r arfer yw treiglo enwau Cymraeg yn unig. Nid oes angen treiglo enwau tramor neu enwau Saesneg heb eu Cymreigio.

e.e. **ym Mr**yste ond yn **B**ristol

### Termau

arddodiad/arddodiaid – preposition/prepositions;

treigladr trwynol – nasal mutation

## 3. Yn y geiriau **blynedd, blwydd, diwrnod** ar ôl

'pum', 'saith', 'wyth', 'naw', 'deg', 'deuddeg', 'pymtheg', 'deunaw', 'ugain', 'can'.

e.e. pum **ml**ynedd wyth **ml**wydd oed ugain **ni**wrnod

Yn yr achosion hyn hefyd mae:

deg > deng (deng **ml**wydd oed)

deuddeg > deuddeng (deuddeng **ni**wrnod)

pymtheg > pymtheng (pymtheng **ml**ynedd)

**Nodwch** – yn achos y gair diwrnod nid yw'r treigladr mor amlwg bellach. Felly mae 'deg diwrnod', 'wyth diwrnod' a.y.y.b. yn dderbyniol.